

Diweddariadau i Raglen Lywodraethu 2014

Fel ag a ddywedwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol, nid dogfen sefydlog ddigynfnewid yw'r Rhaglen Lywodraethu: wrth i ni gyflwyno polisiau a mentrau newydd – neu ddatblygu dangosyddion a mesuryddion cynnydd gwell – byddwn yn diweddarau'r Rhaglen i wneud yn siŵr ei bod yn adlewyrchu'n gwaith diweddaraf. Mae adroddiad eleni'n cynnwys newidiadau i nifer o ddangosyddion fel a ganlyn:

- Dangosyddion yn lle hen rai – Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi datblygu mesuryddion newydd er mwyn gallu mesur ein gwaith yn well. Mewn ambell le, mae rhai o'r dangosyddion newydd hyn yn cymryd lle rhai oedd yn bod eisoes.
- Dangosyddion sydd wedi'u dileu – Mae nifer fach o ddangosyddion wedi'u dileu o'r Rhaglen Lywodraethu, naill ai am fod y fenter roeddent yn ei monitro wedi'i chwblhau neu oherwydd nad yw'r awdurdod ystadegol perthnasol yn casglu'r data mwyach.

Fe welwch restr o'r holl ddangosyddion sydd wedi newid isod.

Dangosyddion sydd wedi'u diweddarau yn yr adroddiad eleni

Cod y dangosydd yn Adroddiad 2013	Teitl y dangosydd	Rheswm am ddiweddarau
OU033(b)	Canran y plant 4 a 5 oed sy'n ordew	Mae ffynhonnell y data ar gyfer y dangosydd wedi cael ei newid i gyfleu'r wybodaeth hon yn well.
TR181	Nifer yr eiddo sy'n elwa o welliannau rhag llifogydd a diogelu'r amgylchedd	Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael eu newid o nifer blynyddol i gyfanswm cronol er mwyn cynrychioli'n well natur y camau a gymerwyd o ran llifogydd a diogelu'r amgylchedd.
TR182	Cynlluniau Llifogydd Cymunedol	Mae'r gyfres ddata sylfaenol ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael ei newid o nifer blynyddol i gyfanswm cronol er mwyn cynrychioli'n well natur y camau a gymerwyd o ran cynlluniau llifogydd cymunedol.

Dangosyddion sydd wedi'u tynnu o'r adroddiad eleni

Cod y dangosydd yn Adroddiad 2013	Teitl y dangosydd	Rheswm dros ddileu
TR015	Canran y rheini sy'n gadael Camau at Waith sy'n mynd ymlaen i gyflogaeth neu i fanteisio ar ddysgu pellach	Mae'r rhaglen y mae'r dangosydd hwn yn adrodd arni, wedi cael ei disodli.
TR050	Canran y sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sydd ag incwm blynyddol uwch na chanolrif y DU	Gweler ymrwymiad 3/035 i gael rhagor o wybodaeth.
TR085	Pobl sy'n cael eu haillderbyn i'r ysbyty	Mae'r adnoddau a fyddai'n ofynnol i ddatblygu a chasglu setiau data cadarn a dibynadwy yn drech na'r manteision o gael data ar gyfer y dangosydd hwn. Mae cyfres o ddangosyddion yr adroddwyd arnynt mewn rhan arall o'r adroddiad blynyddol gyda'i gilydd yn rhoi darlun o'r hyn sy'n digwydd ynghylch derbyniadau a rhyddhau o ysbytai, gan gynnwys OU025, OU040, TR056, TR058, and TR059.
TR133	Canran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd	Mae'r dangosydd hwn wedi cael ei dynnu gan ei fod yn dyblygu gwybodaeth a geir yn dangosydd canlyniadau OU069.